The Third Sector European Team

Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector

# Amser Gwirfoddolwyr

Defnyddio amser gwirfoddolwyr fel arian cyfatebol

## Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Pwy sy'n wirfoddolwr at ddibenion arian cyfatebol?
3. Pa gofnodion y ddylid eu cadw?
4. Sut mae rhoi gwerth ar amser gwirfoddolwyr
5. Seilio amser gwirfoddolwyr ar weithgarwch yn hytrach na statws
6. Uchafswm amser gwirfoddolwyr
7. Atodiad

## Cyflwyniad

Gellir defnyddio gweithgaredd gwirfoddol di-dâl fel ffynhonnell arian cyfatebol o fath arall ar gyfer prosiectau sy'n derbyn cyllid gan raglenni Cronfa Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru.

Mae'r daflen wybodaeth hon yn ychwanegu at yr wybodaeth a geir yn y daflen wybodaeth ar wahân ar Arian Cyfatebol, ac rydym yn argymell yn gryf eich bod yn defnyddio'r daflen hon ochr yn ochr â'r canllawiau cynhwysfawr ychwanegol ar arian cyfatebol.



Llun: Grŵp o wirfoddolwyr yn cael hwyl.

## Pwy sy'n wirfoddolwr at ddibenion arian cyfatebol?

Mae'n rhaid egluro o'r cychwyn cyntaf bod gwirfoddolwyr yn helpu'r prosiect yn eu hamser preifat eu hunain ac nid ydynt yn cael eu cyflogi gan y mudiad nac yn cael elw o'r prosiect.

Ni fydd unrhyw gyflogai cyflogedig o'r prosiect sy'n cyflawni dyletswyddau "gwirfoddol" ychwanegol yn gymwys. (Ni ddylid drysu hyn â staff cyflogedig sy'n cael eu secondio i brosiect gan fudiad arall sy'n gymwys o dan reolau arian cyfatebol).

Mae'n bwysig cofio hefyd na ellir cynnwys buddiolwr prosiect fel gwirfoddolwr ar y prosiect hwnnw at ddibenion arian cyfatebol. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan mae gwirfoddolwyr yn dysgu drwy weithio. Ni allant dderbyn a darparu cefnogaeth ar y prosiect ar yr un pryd.

## Pa gofnodion y ddylid eu cadw?

Bydd angen i chi sicrhau y gallwch gadarnhau unrhyw hawliadau am amser gwirfoddol di-dâl a wneir a'r gwerthoedd tybiannol a osodir ar y gweithgaredd. Dylai rheolwr eich prosiect gadw cofnodion yn dangos natur y gweithgareddau a gyflawnir gan wirfoddolwyr, e.e. disgrifiad rôl, er mwyn cyfiawnhau'r gyfradd fesul awr a ddefnyddir (gweler isod) yn ogystal â thaflenni amser wedi'u llofnodi yn cynnwys y dyddiadau a'r amseroedd y maen nhw wedi gwirfoddoli.

# Sut mae rhoi gwerth ar amser gwirfoddolwyr

Mae WEFO am weld amser gwirfoddolwyr ar gyfer prosiectau Cronfeydd Strwythurol yn cael eu categoreiddio, cyn belled â phosibl, i rolau penodol gyda chyfraddau cyflog tybiannol pendant. Daw'r cyfraddau isod o Arolwg Blynyddol y Deyrnas Unedig o Oriau ac Enillion (ASHE) gan ddefnyddio'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015. Mae'r cyfraddau ar gyfer y DU ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr.

Mae'r cyfraddau canlynol yn berthnasol i brosiectau a gymeradwywyd gan WEFO cyn 1 Gorffennaf 2019.

| Rôl | Cyflog amser llawn tybiannol | Cyfradd dybiannol fesul awr |
|---|---|---|
| Rheolwr Prosiect | £43,965 | £22.49 |
| Ymchwilydd Prosiect | £32,222 | £16.85 |
| Cydlynydd Prosiect | £28,161 | £14.42 |
| Hyfforddwr | £28,086 | £24.44 |
| Gweinyddwr Prosiect | £21,017 | £10.65 |

Mae'r cyfraddau canlynol yn berthnasol i brosiectau a gymeradwywyd gan WEFO o 1 Gorffennaf 2019 ymlaen.

| Rôl | Cyflog amser llawn tybiannol | Cyfradd dybiannol fesul awr |
|---|---|---|
| Rheolwr Prosiect | £45,011 | £23.07 |
| Ymchwilydd Prosiect | £32,833 | £17.06 |
| Cydlynydd Prosiect | £25,932 | £13.57 |
| Hyfforddwr | £28,141 | £14.25 |
| Gweinyddwr Prosiect | £20,285 | £10.42 |

Lle'n bosibl, ceisiwch baru'r tasgau i'w cyflawni gan eich gwirfoddolwyr â'r enghreifftiau. Os na wneir hyn, gallai gymryd yn hirach i gymeradwyo'ch prosiect, gan y bydd angen i unrhyw gyfraddau gwahanol gael eu cytuno gan WEFO o bosibl.

Cydnabyddir, fodd bynnag, na fydd y gwaith a wneir gan rai gwirfoddolwyr yn cyd-fynd â'r rolau hyn ac mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y gellid cyfiawnhau cyfradd dybiannol yr awr uwch neu is. Er enghraifft, efallai bod y rôl sy'n cael ei chyflawni gan y gwirfoddolwr yn un fwy technegol neu arbenigol lle gellid cyfiawnhau cyfradd cyflog dybiannol uwch.

Mewn achosion o'r fath gellid defnyddio cyfradd dybiannol wahanol. Bydd angen i chi ddangos bod y tasgau a gyflawnir gan wirfoddolwr yn briodol i'r teitl swydd a roddwyd a bod y cyflog tybiannol a ddefnyddiwyd i gostio amser y gwirfoddolwr yn rhesymol ac yn gyson â'r cyflog y gallai ddisgwyl ei gael pe bai'n gwneud yr un dyletswyddau fel rhan o swydd gyflogedig.

Dylai unrhyw achos lle defnyddir cyfradd cyflog dybiannol **uwch** na'r rheini a ddangosir uchod gael ei gytuno gan WEFO cyn i chi gyflwyno cynllun busnes eich prosiect. Wrth gyflwyno tendrau a grantiau, bydd angen i chi siarad â'ch prif fuddiolwr, a fydd, yn ei dro, yn gorfod cael cytundeb WEFO ar gyfer unrhyw gyfraddau gwirfoddolwyr ychwanegol a ddefnyddir.

## Seilio amser gwirfoddolwyr ar weithgarwch yn hytrach na statws

Mae'n bwysig nodi bod gwerth amser gwirfoddolwr yn seiliedig ar werth tybiannol y tasgau a gyflawnir gan y gwirfoddolwr ar gyfer y prosiect, ac nid ar "enillion" presennol unigolyn yn ei swydd gyflogedig arferol. Er enghraifft, bydd gwirfoddolwr â swydd gyflogedig fel rheolwr ond sy'n gwirfoddoli ei amser preifat i helpu prosiect gyda thasgau gweinyddol cyffredinol yn cael ei amser wedi'i gyfrif fel gweinyddwr ac nid fel rheolwr.

Yn yr un modd, byddai'r gwerth tybiannol a roddid ar wirfoddolwr di-waith sy'n derbyn budd-daliadau Gwladol yn seiliedig ar werth tybiannol y tasgau y mae'n ei gyflawni fel gwirfoddolwr, ac nid ar swm y budd-daliadau y mae'n ei dderbyn.

## Uchafswm amser gwirfoddolwyr

Ni fydd y taliadau grant i brosiectau yn fwy na'r **gwariant gwirioneddol** a dalwyd ar gyfer y prosiect hwnnw. Y rheswm am hyn yw nad yw gwirfoddolwyr yn cael eu talu o gwbl mewn gwirionedd a phe bai cyfradd lawn y grant yn cael ei thalu, gallai rhai mudiadau sy'n defnyddio llawer o wirfoddolwyr wneud elw ar y grant.

Felly, bydd y grant yn cael ei gyfyngu i'r gyfradd grant sy'n berthnasol i'r prosiect neu'r gwariant gwirioneddol a dalwyd mewn gwirionedd, pa un bynnag yw'r lleiaf. Os oes arnoch angen cyngor penodol ar hyn cysylltwch â 3-SET yn uniongyrchol.

# Atodiad

## Enghraifft: Sefydliad Baggins

Yn y daflen wybodaeth ar wahân ar arian cyfatebol, gwnaethom edrych ar brosiect £100,000 a oedd yn cael ei weithredu gan Sefydliad Baggins. Dyma oedd taflen gyllid y prosiect –

| Cost y prosiect | |
|---|---|
| 1 swyddog hyfforddi llawn amser ar £25,000 y flwyddyn | £50,000 |
| 1 gweinyddwr rhan amser | £20,000 |
| Costau teithio a chynhaliaeth buddiolwyr | £5,000 |
| Deunydd hyfforddi | £5,000 |
| Llogi ystafelloedd, arlwyo ac ati. | £20,000 |
| **Cyfanswm costau'r prosiect** | **£100,000** |
| | |
| Cyfradd ymyrraeth | 70% |
| Bydd Ewrop yn cyfrannu | £70,000 |
| **Arian cyfatebol fydd ei angen** | **£30,000** |

Gadewch i ni dybio bod y gweinyddwr mewn gwirionedd yn wirfoddolwr ar y prosiect a'i fod wedi ei gostio ar gyfradd weinyddol i wirfoddolwyr o £10.65 yr awr.

Dros ddwy flynedd, roedd y taflenni amser a gadwyd gan y gwirfoddolwr yn dangos bod dros 1800 o oriau wedi'u cwblhau gyda chyfanswm gwerth o £20,000. Byddai taflen gyllid y prosiect yn edrych fel hyn wedyn –

# Atodiad

## Enghraifft: Sefydliad Baggins

| Cost y prosiect | |
|---|---|
| 1 swyddog hyfforddi llawn amser ar £25,000 y flwyddyn | £50,000 |
| 1 gweinyddwr rhan amser (Gwirfoddolwr) | £20,000 |
| Costau teithio a chynhaliaeth buddiolwyr | £5,000 |
| Deunydd hyfforddi | £5,000 |
| Llogi ystafelloedd, arlwyo ac ati | £20,000 |
| **Cyfanswm costau'r prosiect** | **£100,000** |
| | |
| Cyfradd ymyrraeth | |
| Bydd Ewrop yn cyfrannu | £70,000 |
| **Arian cyfatebol ar ffurf ymarferol** | **£20,000** |
| **Gwir Arian Cyfatebol** | **£10,000** |

£100,000 yw cyfanswm cost y prosiect o hyd, ond drwy ddefnyddio amser gwirfoddolwyr, gwnaeth y mudiad arbed £20,000 mewn arian gwirioneddol, felly roedd angen iddo ddod o hyd i £10,000 ychwanegol mewn arian cyfatebol gwirioneddol yn hytrach na £30,000.

Mae croeso i chi gysylltu â 3-SET os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch defnyddio amser gwirfoddolwyr fel arian cyfatebol o fath arall.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds